SSCE CYMRU – SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES – CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# BWLETIN YSGOL MISOL – IONAWR 2023

## Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol (Gorllewin Cymru)



*"Blwyddyn Newydd Dda! Rwyf wedi ymuno â thîm SSCE Cymru fel yr RSLO newydd yn Gorllewin Cymru. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gydag ysgolion yr ardal a pharhau â'r gwaith gwych y mae Yasmin wedi bod yn ei wneud. Rwy'n gyffrous i helpu ysgolion i symud ymlaen wrth weithio tuag at eu statws Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog a chael cydnabyddiaeth am eu hymroddiad i gefnogi plant y Lluoedd Arfog dathlu eu profiadau. Rwyf hefyd yn edrych ymlaen yn fawr at rannu syniadau gyda chi cyn bo hir am ddathlu Mis y Plentyn Milwrol ym mis Ebrill. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod lle gallwn drafod ffyrdd y gallwn gydweithio i gefnogi eich plant Milwyr."*

**Emma,** Emma.Reeves@pembrokeshire.gov.uk

## Swyddog Arweiniol Cyfranogiad



*"Blwyddyn Newydd Dda! Wrth i ni ddechrau'r flwyddyn newydd a symud ymlaen i dymor y Gwanwyn mae'n caniatáu inni ailffocysu ac ystyried dechrau prosiectau newydd, pethau i ddatblygu dros weddill y flwyddyn academaidd. Fe wnes i fwynhau ymgysylltu ag ambell ysgol yng Nghymru diwedd y flwyddyn llynedd, sydd eisoes yn cymryd rhan yn y cyrsiau Cynradd ac Uwchradd, a ddyluniwyd gan Little Troopers. Dwi'n edrych ymlaen at glywed sut maen nhw'n dod ymlaen dros yr wythnosau nesaf a beth maen nhw wedi ei ddarganfod am eu plant Milwyr a'u profiadau unigryw. Os hoffai eich ysgol fanteisio ar y cyfle i gynnal y cwrs hwn a dangos sut rydych chi'n cefnogi plant y Lluoedd Arfog sy'n mynychu eich ysgol, yna cysylltwch â ni."*

**Jo,** Joanna.wolfe@wlga.gov.uk

## DYLETSWYDD CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG

Mae Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog yn rhwymedigaeth gyfreithiol ar rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, i dalu sylw dyladwy i egwyddorion y Cyfamod wrth arfer rhai swyddogaethau.

**Daeth Dyletswydd y Cyfamod i rym ar 22ain Tachwedd 2022.**

**Rhagor o wybodaeth yma**

## CYLLID

**SSCE Cymru Cymhorthydd rheoli achosion**
Ar gael trwy gydol y flwyddyn.

**Cyngor:** Siaradwch â'ch Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol a defnyddiwch ganllawiau cyllido SSCE Cymru ar gyfer ysgolion yng Nghymru.

**Rhagor o wybodaeth yma**

## HYFFORDDIANT

**Sesiynau DPP SSCE Cymru**

Dyddiadau ar gael ym mis Ionawr.

**Gweler dyddiadau ac archebwch**

## ADNODDAU

**Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog: Briff Awdurdodau Lleol a Ysgolion.**

**Ar gael yma**

